**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 21 Tachwedd 2000
**Amser:** 9.30 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol**

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | (Democratiaid Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwyr) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Val Feld | (Llafur) |
| John Griffiths | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Dylan Hughes | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Adrian Green | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Dim

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi: LEG-26-2000 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd ymwelwyr o Senegal a oedd yn eistedd yn yr oriel gyhoeddus i arsylwi gwaith y Pwyllgor.

2.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau iddynt fynegi pryder yr wythnos ddiwethaf ynghylch y defnydd cywir o weithdrefnau, yn arbennig pan wneir gorchmynion o dan y weithdrefn frys. Dywedodd y byddai cyfle i drafod y mater hwn eto heddiw o dan Eitem 3 nawr fod y Pwyllgor

wedi bwrw golwg ar ymateb disgwyliedig y Dirprwy Lywydd i ohebiaeth flaenorol.

**LC134 – Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Swyddogaethau Interim) 2000**

2.3 Dywedodd y Cadeirydd fod yr aelodau wedi cytuno yn y cyfarfod blaenorol y dylai ef ysgrifennu at Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu am Oes yn ymwneud â'r gorchymyn uchod a ystyriwyd bod modd adrodd yn ôl yn ei gylch o dan Reol Sefydlog 11.5. Gwnaed y Gorchymyn o dan y weithdrefn frys ond nis cyflwynwyd i'r Pwyllgor "cyn gynted â phosibl" ar ôl hynny, fel sydd yn ofynnol o dan Reol Sefydlog 22.26. Golygodd yr ailgyfeiriad hwyr hwn y cyfyngwyd ar y cyfnod o 40 diwrnod (a ganiateir o dan RhS22.27) lle y bo modd i aelodau gyflwyno cynnig i ddiddymu Gorchymyn, gan na chawsant gyfle i weld adroddiad y Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwnnw. Anfonwyd llythyr at Ms Davidson a dosbarthwyd copi ymhlith yr aelodau. Arhosir am ymateb.

**Eitem 3: Gohebiaeth y Pwyllgor**

**Llythyr oddi wrth y Dirprwy Lywydd (dyddiedig 14 Tachwedd) par: Deddfwriaeth a Wnaed o dan y Weithdrefn Frys y canfyddir y gellir Adrodd yn ôl yn ei gylch o dan Reol Sefydlog 11.5**

3.1 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau y derbyniwyd ymateb gan y Dirprwy Lywydd i lythyr a anfonwyd gan Mike German (Cadeirydd y Pwyllgor ar y pryd) a gobeithiai y byddai'r Pwyllgor yn derbyn bod yr ymateb yn mynd i'r afael â'u pryderon. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yna anghysondeb difrifol wrth weithredu Rheolau Sefydlog yn ymdrin â deddfau a wnaed o dan y Weithdrefn Frys. Ar sawl achlysur canfu bod modd adrodd yn ôl, o dan Reol Sefydlog 11.5, ynghylch deddfwriaeth a wnaed o dan y Weithdrefn Frys wrth iddi gael ei hystyried gan y Pwyllgor Deddfau. Mae adroddiadau'r Pwyllgor hyd yma wedi'u gosod gerbron y Cynulliad yn unig. Nid oes unrhyw fecanwaith yn bodoli (o dan ysbryd Rheol Sefydlog 11.5) i wahodd y Cynulliad i "roi sylw arbennig" i faterion adroddadwy o'r fath. Ni chaiff deddfwriaeth a wnaed ar frys ei hystyried mewn cyfarfod llawn fel deddfwriaeth ddrafft a wnaed drwy ddefnyddio'r weithdrefn safonol. Felly, heblaw bod aelod yn galw am y rheol 40 diwrnod (a ddarperir ar ei chyfer yn Rheol Sefydlog 22.27), nid oedd unrhyw fodd i'r Cynulliad "roi sylw arbennig" yn effeithiol i adroddiad gan y Pwyllgor.

3.2 Yn ei ymateb cytunodd y Dirprwy Lywydd ei fod yn bwysig y rhoddir gweithdrefnau cywir ar waith er mwyn hysbysu Aelodau'r Cynulliad pryd bynnag y bo'r Pwyllgor Deddfau yn eu gwahodd i roi eu sylw arbennig i orchymyn. Pan ddymuna'r Pwyllgor wahodd sylw arbennig y Cynulliad i orchymyn a wnaed o dan y weithdrefn frys cytunodd y Dirprwy Lywydd naill ai y byddai'r Llywydd neu yntau yn rhoi datganiad ar ddechrau Cyfarfod llawn. Hefyd, awgrymodd bod Clerc y Pwyllgor yn anfon copi o adroddiad y Pwyllgor dros yr e-bost at bob aelod o'r Cynulliad. Gofynnwyd a fyddai cyfle i ofyn cwestiynau ar y datganiad hwnnw. Cytunwyd y dylid holi Swyddfa'r Llywydd. **Gweithredu: Clerc.**

3.3 Ymhelaethodd ac awgrymodd pan fo gorchymyn drafft yn cael ei osod gerbron y Cynulliad i'w gymeradwyo o dan y weithdrefn safonol, byddai'r cynnig oedd yn gwahodd Aelodau i nodi adroddiad y Pwyllgor Deddfau yn nodi a oedd y Pwyllgor yn dwyn "sylw arbennig y Cynulliad" i'r gorchymyn drafft. Cytunodd yr aelodau ar y cynigion hyn.

3.4 Yn ystod y drafodaeth gofynnwyd i'r Ymgynghorwyr Cyfreithiol i egluro'r sefyllfa o safbwynt eu hannibyniaeth ar y Weithrediaeth. Hysbysodd Mr Turnbull y Pwyllgor er ei fod yn dechnegol o dan strwythur Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, ei fod yn atebol i'r Pwyllgor Deddfau yn unig. Dywedodd Mr Hughes fod ei safle rywfaint yn wahanol gan iddo gael ei secondio i'r Pwyllgor Deddfau am gyfnod penodol yn unig cyn y byddai'n cael ei drosglwyddo i brif ran Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (hyd yma gweithio i'r Pwyllgor Deddfau yn unig a wnaeth). Cytunwyd bod hwn yn drefniant anarferol a chytunodd yr Ymgynghorwyr baratoi papur ar gyfer yr aelodau yn pennu eu sefyllfa a'r modd y maent yn rhyngweithio â gweddill Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol. **Gweithredu: Ymgynghorwyr Cyfreithiol.**

3.5 Yn ystod trafodaethau ar weithdrefnau holodd yr Aelodau nifer o gwestiynau a mynegi nifer o bryderon, yn benodol:

- Roedd Aelodau o'r farn pe bai'r Weithdrefn Frys yn cael ei defnyddio ei fod yn hanfodol y dilynir y gweithdrefnau cywir – barnwyd bod Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2000 ar ddigon o frys i gyfiawnhau defnyddio'r Weithdrefn Frys ond ar y llaw arall ni chawsant eu cyhoeddi na'u hanfon at y Pwyllgor o fewn cyfnod rhesymol o amser;
- Teimlwyd bod y methiant i gyhoeddi deddfwriaeth yn brydlon yn adlewyrchu'n wael ar y Cynulliad cyfan ac roedd y rheswm dros hynny yn destun penbleth i Aelodau;
- Ceisiwyd eglurhad ar yr hyn a olyga'r gair "cyhoeddi" ac a oedd cyhoeddi ar y mewnrwyd/rhyngrwyd yn ddigonol. Atebodd Mr Hughes er bod cyhoeddi ar y <u>rhyngrwyd</u> (yn hytrach na'r <u>mewnrwyd</u>) yn gyfystyr â chyhoeddi, ni osodir is-ddeddfwriaeth cyffredinol y Cynulliad ar wefan y Cynulliad. Mae gwefan y Cynulliad yn cynnig cysylltiadau â gwefan Llyfrfa Ei Mawrhydi, sef ffynhonnell statudol cyhoeddiadau;
- Dywedwyd er y gallai Rheoliadau a wnaed Ar Frys fod wedi dod i rym, nid oedd modd eu gweithredu'n llawn os nad oeddent wedi'u cyhoeddi. Eglurodd Mr Turnbull fod hynny'n gywir ac mewn sefyllfa debyg yn gynnar eleni, bu'n rhaid gollwng erlyniad yn sgîl y ffaith nad oedd deddfwriaeth y Cynulliad wedi'i hargraffu a'i rhoi ar werth gan y Llyfrfa;
- Mynegodd yr aelodau bryder y trafodwyd nifer o'r materion hyn ers misoedd heb ryw lawer o ddatblygiadau;
- Cytunwyd y trafodir pwnc pwysig cyhoeddi ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

3.6 Gofynnodd yr aelodau am sesiwn briffio oddi wrth y Weithrediaeth i egluro eu rôl a chael gwybod am weithdrefnau. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn ceisio trefnu sesiwn o'r fath cyn gynted â phosibl. **Gweithredu: Clerc.**

**Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**

**LC135 – Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2000**
4.1 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y rheoliadau o dan y weithdrefn frys.

4.2 Ar ôl ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Cyfreithiol, cytunodd yr aelodau fod yna faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Er bod y rheoliadau wedi'u gwneud ar 28 Medi 2000 ni chawsant eu cyflwyno i'r Pwyllgor Deddfau tan 15 Tachwedd 2000. Noda Rheol Sefydlog 22.26 y dylai gorchmynion a wnaed o dan y weithdrefn frys gael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Deddfau "cyn gynted â phosibl" ar ôl eu gwneud. Gan nad oedd y Gorchymyn wedi'i gyflwyno o fewn cyfnod rhesymol o amser ystyriwyd bod modd adrodd yn ôl ynghylch y mater hwn o dan Reol Sefydlog 11.5(v).

4.3 Ni chyhoeddwyd y Gorchymyn cyn iddo ddod i rym ac mae'n dal heb ei gyhoeddi hyd yma. Golygodd hyn doriad ar Adran 2(i) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946. Cytunodd aelodau i alw am y weithdrefn a bennwyd gan Reol Sefydlog 11.4. Mae hyn ar yr amod y dylai'r Cadeirydd hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol o fwriad y Pwyllgor i lunio adroddiad o'r fath a rhoi cyfle i'r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb cyn hysbysu'r Cynulliad bod angen rhoi sylw arbennig i unrhyw ddeddfwriaeth. **Gweithredu: Clerc.**

**LC136 – Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Diwygio) (Cymru) 2000**
4.4 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i'r Pwyllgor.

4.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gorchymyn ar unrhyw seiliau a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yr oedd o'r farn bod angen eu cofnodi yn ei Adroddiad. Gwnaed cais fodd bynnag bod yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol yn archwilio a oedd yna unrhyw Feysydd Rheoli Mwg yng Nghymru. **Gweithredu: Ymgynghorwyr Cyfreithiol.**

4.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y rheoliad drafft hwn fel LC136 (Adroddiad).

**Eitem 5 Unrhyw fusnes arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**
5.1 Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch sut maent yn ymdrin â Deddfwriaeth Ewropeaidd. Eglurwyd ei fod yn fater i'r Cynulliad benderfynu a fyddai'n gweithredu Deddfwriaeth o'r fath ac nid mater i'r Pwyllgor hwn, ond ei fod o bosibl yn fwy perthnasol ar gyfer y pwyllgorau pwnc priodol.

5.2 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Tachwedd 2000 pan fydd yna dri darn o ddeddfwriaeth i'w hystyried.

## Adroddiadau a Atodir

- **LC136**